

Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Awdur: Elin Wyn Hughes – Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn

Awst 5ed 2020

1.0 CEFNDIR

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i ddarparu gwybodaeth am sefyllfa gwariant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-2020.

2.0 GWAITH UNED AHNE LLŷN

2.1 Gweinyddwyd y Gronfa gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn. Roedd y gwaith yn cynnwys ymateb i ymholiadau, anfon ffurflenni cais a dogfennau cefndirol a rhoi cyngor ar baratoi ceisiadau. Pan ddaeth ceisiadau i law, roedd y gwaith yn cynnwys asesu yn unol â'r meini prawf a sicrhau penderfyniad.

2.2 Ar gyfer ceisiadau grant o dan £3,000, bu staff yr Uned AHNE yn penderfynu arnynt yn unol â'r hawl dirprwyedig. Ar gyfer ceisiadau o dros £3,000, bu cydweithio â Phanel Grantiau ar gyfer ymdrin â hwy a dod i benderfyniad. Mae aelodau'r Panel Grantiau wedi eu dethol o brif Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn. Mae'r gynrychiolaeth fel a ganlyn:-

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor
- Cyngor Gwynedd
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Cyngor Cymuned Llanbedrog
- Cyngor Cymuned Clynnog Fawr
- Cyngor Tref Nefyn
- Partneriaeth Twristiaeth Abersoch a Llŷn

2.3 Mae llawer o waith yr Uned AHNE hefyd wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth am y Gronfa drwy fynychu sioeau a digwyddiadau, cynhyrchu erthyglau i'r wasg a rhoi gwybodaeth drwy'r cyfryngau_cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyfrif Instagram swyddogol AHNE Llŷn (@ahnellynaonb) a thrwy gyfrifon swyddogol Twitter a Facebook Cyngor Gwynedd. Mae gan AHNE Llŷn wefan hefyd sy'n darparu enghreifftiau o_brosiectau llwyddiannus ac ymarfer da (www.ahne-llyn-aonb.org).

3.0 CRYNODEB ARIANNOL

3.1 Clustnodwyd **£55,000** i'r Gronfa yn y flwyddyn ariannol dan sylw a dyrannwyd yn llawn. Dyma'r crynodeb o'r prosiectau a gefnogwyd i gyd :-

CYFEIRNOD	PROSIECT	HAWLIWYD
CDC 18.6	Amgueddfa Forwrol Nefyn	£2,800.00
CDC 18.16	Awyr Dywyll Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru	£3,000.00
CDC 18.17	Gwyl Fwyd Pwllheli	£3,000.00
CDC 19.1	Hen Siop Plas Carmel	£11,981.00
CDC 19.2	Taith Tridiau Llŷn	£1,500.00
CDC 19.3	Hafod Ceiri	£5,300.00
CDC 19.4	Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr	£4,319.00
CDC 19.5	Gwyl R S Thomas	£990.00
CDC 19.10	Sgyrsiau Hanes Lleol Bryncroes	£610.00
CDC 19.11	Capel Ceidio	£4,000.00
CDC 19.12	Tafarn yr Heliwr	£8,610.00
CDC 19.14	Arwyddion Newydd Eglwysi Bro Madryn	£750
CDC 19.16	Parêd Dewi Sant Pwllheli	£2,080.70
CDC 19.17	Be Nawn Ni Heddiw	£1,000
	Hawliad Gweinyddol Uned AHNE Llŷn	£5,059.30
	CYFANSWM	£55,000

3.2 Roedd cyfanswm gwerth yr holl brosiectau yn eu cyfanwydd yn cyrraedd **£473,192.15**.

3.3 O'r prosiectau uchod, cafodd 6 eu cyflwyno gerbron y Panel Grantiau am benderfyniad. Dyma ddyddiadau'r pwyllgorau hynny:-

19 Rhagfyr 2018:-

CDC 19.1 – Prosiect Plas Carmel

10 Ebrill 2019

CDC 19.2 – Taith Tridiau Llŷn

CDC 19.3 – Hafod Ceiri

CDC 19.4 – Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr

CDC 19.11 – Capel Peniel, Ceidio

CDC 19.12 - Tafarn yr Heliwr

Mae copi o adroddiadau'r pwyllgorau hyn yn ogystal â'r cofnodion i'w cael yn **Atodiad 1** o'r adroddiad hwn.

4.0 DADANSODDIAD O BROSIECTAU UNIGOL

- **CDC 18.6 Amgueddfa Forwrol Nefyn**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy:- £2,800 (71%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £3,959

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £784 – 20% (Cronfa Dreftadaeth y Loteri)

£375 – 9% (Amser Gwirfoddol)

Roedd y nawdd ar gyfer cefnogi'r Amgueddfa Forwrol dros gyfnod yr haf. Dyma'r adeg o'r flwyddyn ble mae prysurdeb o ran gweithgareddau i blant, gweithgareddau teuluol a sgysiau hanes lleol yn cael eu cynnal. Mae cynnydd yn y nifer o ddefnyddwyr cyffredinol hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y cais hwn yn arbennig ar gyfer costau un staff ychwanegol. Mae'r sawl sydd wedi ei phenodi yn gyfrifol am drefnu a chydlynu gweithgareddau ac yn trefnu rotas a gofalu am y gwirfoddolwyr.



Mae'r prosiect hwn wedi llwyddo i gyrraedd meini prawf y Gronfa mewn sawl ffordd, drwy fod yn adnodd cymunedol pwysig o fewn tref Nefyn. Mae canol y



dref yn Ardal Gadwraeth ddynodedig ac mae Llwybr yr Arfordir gerllaw. Mae hi'n ganolfan ddefnyddiol i ymwelwyr a thrigolion dderbyn gwybodaeth am ein diwylliant morol cyfoethog - ac yn cydweithio llawer gydag ysgolion a gwasanaethau lleol sy'n gweithio gyda phobl o bob oed a chefnidir. Mae'n bwysig nodi hefyd mai hen eglwys Santes Fair yw'r adeilad ei hun - ac mae hwn yn enghraifft o brosiect sy'n rhan o warchod a diogelu adeilad o bwys hanesyddol.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol - HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant - IP1, IP2, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas - CP1, CP2, CP3, CP7)

- **CDC 18.16 Awyr Dywyll Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £3,000 (7%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £47,000

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £27,000 – 57% (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

£7,500 – 16% (AHNE Ynys Môn)

£7,500 –16% (AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy)

£2,000 – 4% (AHNE Llŷn)

Prosiect yw hwn dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn 2016, enillodd y Parc statws Gwarchodfa Awyr Dywyll gan yr IDA (International Dark Sky Association) gan adlewyrchu ansawdd uchel awyr dywyll yn yr ardal. Gwnaethpwyd llawer o waith i sicrhau'r dynodiad – ond mae llawer o waith i'w wneud eto i wella dealltwriaeth, defnydd ac chynyddu potensial i unigolion, cymunedau a busnesau. Mae'r prosiect hwn wedi ei ddatblygu er mwyn cynyddu adnoddau APC Eryri i ymwneud â'r dynodiad trwy gyflogi swyddog i barhau gyda'r gwaith ynghlwm â'r statws - ac i gynorthwyo Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gogledd Cymru i gael statws Awyr Dywyll hefyd. Yn Ionawr 2019, cafodd Dani Robertson ei phenodi fel Swyddog Prosiect ac mae hi wedi bod yn gwneud llawer o waith i godi ymwybyddiaeth a chynnal trafodaethau cychwynnol yn lleol.

Mae'r prosiect wedi cyrraedd nifer o feini prawf y Gronfa drwy godi ymwybyddiaeth am un o nodweddion arbennig yr ardal a chyfrannu at waith o gynnal a gwella cynefinoedd i bob math o fywyd gwylt.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tawelwch a Llygredd Isel – PP3)

(Cynefinoedd a Bywyd Gwylt – BP1, BP3, BP4, BP7, BP8)

- **CDC 18.17 Gwyl Fwyd Pwllheli**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £3,000 (17%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £17,750

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £1,000 – 6 % (Cyngor Tref Pwllheli)

£2,750 – 15% (Harlech Food Service – Preifat)

£3,000 – 17% (Noddwyr Eraill)

£500 – 3% (Codi Arian)

£1,500 – 8% (Grant Grŵp Cynefin / CCG)

£3,000 – 17% (Grantiau Eraill)

£1,000 – 6% (Stondinwyr)

£500 – 3% (Elw o'r Bar)

£1,500 – 8% (Amser Gwirfoddol)

Cafwyd cais 2 flynedd gan bwyllgor Gŵyl Fwyd Pwllheli er mwyn cynnal y digwyddiad hwn am y tro cyntaf. Roedd y nawdd yn gymorth i farchnata'r digwyddiad a sicrhau stondinau a llwyfan, a chyfarch costau arddangosfeydd coginio.



Mae'r cais wedi sgorio'n dda yn erbyn meini prawf y Gronfa – drwy roi llwyfan i gynnyrch lleol a chynnal



digwyddiad cymunedol yn llwyddiannus. Yn ogystal â stondinau cynnyrch, roedd Byw'n Iach Dwyfor yn cynnal sesiynau hefyd yn ymwneud ag iechyd a lles. Cafodd nifer fawr o bobl y cyfle i wirfoddoli yn y prosiect hwn gyda'r gwaith paratoi ac ar y diwrnod.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant – IP1, IP2)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP3, GP4)

- **CDC 19.1 Hen Siop Plas Carmel**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £11,981 (8.49%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £141,145

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £111,476 – 78.98% (RCDF)

£1,500 – 1.06% (Ymddiriedolaeth Laspen ac Oakdale)

£500 - 0.35% (Cyngor Cymuned Aberdaron)

£250 – 0.18% (Cyngor Tref Pwllheli)

£638 – 0.45% (Codi Arian)

£13,000 – 9.21% (Banc Robert Owen)

£1,800 – 1.28% (Amser Gwirfoddol)

Mae safle Plas Carmel yn lle difyr yn ardal Anelog ger Aberdaron. Mae'n cynnwys Capel, tŷ capel a hen siop – oll wedi cadw eu cymeriad gwreiddiol. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r safle yn lleoliad i ddehongli treftadaeth leol ac mae'r Gronfa wedi cefnogi llawer o'r gwaith cychwynol yn y broses. Dros y blynyddoedd diweddar, cefnogwyd ceisiadau i gynnal asesiadau o'r adeilad ac i wella cyflwr yr ardd. Yn 2019/20 – cefnogwyd cais i ddatblygu'r hen siop i gynnwys caffi, siop, gweithdy / uned fenter ac yn cynnig gofod i arddangos gwybodaeth am dreftadaeth yr ardal i'r gymuned ac ymwelwyr.

Cyrhaeddodd y prosiect hwn lawer o feini prawf y Gronfa. Mae'n brosiect cymunedol cryf gyda phwyllgor a nifer o wirfoddolwyr yn arwain. Mae'r Clwb Ffermwyr Ifanc Lleol hefyd wedi cael bod yn rhan o waith clirio'r safle gan roi eu sgiliau gwledig ar waith. Mae'n enghraifft dda hefyd o brosiect sydd yn achub ac adfer un o hen adeiladau gwerthfawr Llŷn. Mae'r Capel wedi ei restru Gradd II*.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiâu hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol – HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3, IP4)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2, CP4, CP5, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP10)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP4, MP7, MP8)

- **CDC 19.2 Taith Tridiau Llŷn**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £1,500 (29%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £5,159

Cyfraniad(au) Cyfatebol: Hosbis Dewi Sant

£1,840 – 36% (Amser Gwirfoddol)

Prosiect ar y cyd oedd hwn rhwng dwy elusen leol gyda'r elw yn mynd i'r elusennau hynny. Cynhaliwyd taith gerdded dros gyfnod o dri diwrnod o Abersoch i Borthdinllaen gan roi'r cyfle i bobl fwynhau nodweddion arbennig arfordir yr ardal, cymdeithasu ac ymgymryd â gweithgaredd hamdden iach.



Roedd lle i 100 o bobl gymryd rhan – ac roedd y targed hwnnw wedi ei gyrraedd. Yn ychwanegol at hyn hefyd, cafodd gwirfoddolwyr gymryd rhan a chael eu hyfforddi mewn sgiliau pwysig fel cymorth cyntaf a sgiliau arwain teithiau cerdded.

Mae'r prosiect wedi cyrraedd nifer o feini prawf y Gronfa drwy blethu gweithgaredd hamdden gyda dynodiad yr ardal fel AHNE gan godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo nifer o nodweddion arbennig.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tawelwch a Llygredd Isel – PP1, PP5)

(Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt – BP2, BP7, BP8)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP5, HP6)

(Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP7, MP8, MP9)

- **CDC 19.3 Hafod Ceiri**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £5,300 (2%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £215,465

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £47,400 – 22% (Cronfa Dreftadaeth y Loteri)

£60,000 – 28% (Cadw)

£50,000 –23% (Sainsbury Family Trust)

£50,000 – 23% (Cornerstones)

£2,765 – 1% (Hafod Ceiri)

£1,000 – 0.5% (Amser Gwirfoddol)

Mae datblygiadau ar y gweill ym mhentref Llithfaen i achub ac adfer Capel Isa'. Mae Capel Isa' bellach wedi cau ac mae ei gyflwr yn dirywio. Mae wedi ei restru gan Cadw (Gradd II) ac yn adeilad trawiadol yn y pentref ac yn nhirlun yr AHNE. Mae bwriad i adfer Capel Isa' yn adeilad cymunedol pwrpasol gyda chaffi ac unedau busnes – ac mae'r fenter wedi ei henwi yn Hafod Ceiri. Mae'n fwriad hefyd i godi ymwybyddiaeth am nodweddion hanesyddol o bwys yn yr ardal. Rhaid pwysleisio fod yr adeilad hwn o fewn golwg i Dre'r Ceiri – sef un o fryngaerau mwyaf eiconig Prydain. Mae nawdd 2019/20 o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cyfrannu at welliannau mewnol i nenfwd yr adeilad.



Cyrhaedda'r prosiect lawer o feini prawf y Gronfa – gan warchod a gwella un o adeiladau eiconig yr ardal a rhan fawr o dreftadaeth yr ardal. Mae llawer o wirfoddolwr yn rhan o'r prosiect hwn hefyd drwy waith gweinyddol, cyfrannu at y pwyllgor a threfnu digwyddiadau codi arian.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir - TP11)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP6)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP8, MP9)

- **CDC 19.4 Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £4,319 (41%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £10,600

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £102 – 1% (Rhoddion)

£6,179 – 58% (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr)

Prosiect dan arweiniad Cyngor Cymuned Clynnog Fawr ar safle hanesyddol Eglwys Beuno Sant. Dyma safle eiconig yn yr AHNE sydd yn gysylltiedig â Llwybr y Pererinion dros y canrifoedd. Roedd y safle hwn yn ganolfan bwysig i'r seintiau ar eu taith i Enlli. Mae hefyd oddi fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig. Mae nawdd wedi ei roi o'r Gronfa yn y gorffennol i gynnal



gwelliannau i lwybrau yn y fynwent ac ail-godi rhannai o waliau'r fynwent oedd wedi dymchwel. Yn 2019/20 – daeth cais pellach gyda'r bwriad o ail-godi rhan hir o'r wal oedd mewn cyflwr gwael ac oedd yn bur debyg o ddymchwel yn y dyfodol.



Mae'r gwaith wedi cyrraedd nifer o feini prawf y Gronfa gan wella a gwarchod safle hanesyddol o bwys – mae'r Eglwys ei hun wedi ei rhestru gan Cadw (Gradd I). Mae'r safle hefyd ger Llwybr Arfordir Cymru a'r brif lôn yr A499.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP4, TP11)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP3)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

- **CDC 19.5 Gwyl R S Thomas**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £990 (17%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £5,765

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £4,125 – 72% (Gwerthiant Tocynnau)

£300 -5% (Aelodau)

£300 - 5% (Llenyddiaeth Cymru)

£50 – 1% (Gwerthiant Rhaglenni)

Cynhelir yr Ŵyl hon yn Aberdaron - i ddathlu gwaith y bardd RS Thomas a'i wraig Elsi Eldridge. Roedd RS Thomas yn ficer ym mhlwyf Aberdaron am flynyddoedd. Mae'r Ŵyl hon yn dathlu eu cyfraniad drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol a gwahodd siaradwyr gwadd i gynnal darlithoedd. Mae'r holl



ddigwyddiadau yn cael eu cynnal o gwmpas y pentref gan gynnwys Eglwys Hywyn Sant, Ysgol Crud y Werin a Chanolfan Porth y Swnt. Bu nawdd o'r Gronfa yn cynorthwyo tuag at gostau llogi, costau siaradwyr gwadd ac adloniant megis côr meibion lleol a chostau marchnata. Cynhaliwyd taith gerdded arbennig hefyd yn dilyn llwybrau arbennig a ddefnyddiwyd gan RS Thomas gan drafod ei lenyddiaeth a thynnu sylw at y bywyd gwyllt arbennig wrth grwydro.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt – BP7, BP8)

(Amgylchedd Hanesyddol - HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP1, MP3, MP7, MP8, MP9)



- **CDC 19.10 Sgyrsiau Hanes Lleol Bryn croes**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £610 (71%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £853.75

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £243.75 – 29% - (Oriau Gwirfoddol)



Cynhaliwyd cyfres o ddarlithoedd ar safle hen ysgol Bryn croes, sydd bellach yn ganolfan gymunedol. Darlithoedd am hanes lleol oedd y rhain – gyda’r testunau yn amrywio o Hanes Hen Felinoedd Llŷn gan Glyn Roberts. Roedd dros 40 o bobl yn bresennol ymhob sgwrs gydag adborth da – a chynhaliwyd 8 sgwrs i gyd. Mae cyfraniad y Gronfa yn golygu fod costau rhedeg y ganolfan, costau siaradwyr gwadd a chostau marchnata yn cael eu cyfarch – gan felly olygu nad oes unrhyw gostau mynediad i’r mynychwyr.

O ran meini prawf y Gronfa, roedd y prosiect yn bodloni llawer ohonynt – yn y modd roedd yn cynnal digwyddiad cymdeithasol a chreu defnydd i’r hen ysgol. Roedd hefyd yn codi ymwybyddiaeth pobl am ein hanes a threftadaeth cyfoethog.

Mae’r prosiect yn ymateb i’r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol – HP5)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP8, MP9)

- **CDC 19.11 Capel Ceidio**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £4,000 (60%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:-£6,700

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £300 – 4% (Amser Gwirfoddol)

£2,400 – 36% (Capel Ceidio)

Dyma brosiect i gynnal gwelliannau i Gapel Peniel, Ceidio. Er nad yn adeilad rhestredig – mae Capel Ceidio wedi cadw ei gyflwr yn dda ac yn cyfrannu at amgylchedd hanesyddol yr AHNE. Cynhelir Eisteddfod yno yn flynyddol ac yno hefyd y bydd y Clwb Ffermwyr Ifanc lleol yn cynnal ymarferion – felly mae llawer o ddefnydd cymunedol iddo. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys gwella'r maes parcio, tirlunio a phaentio gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc lleol yn cyfrannu amser gwirfoddol ar y safle.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP11)

(Cynefinoedd a Bywyd Gwylt – BP7, BP8)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP8, MP9)

- **CDC 19.12 Tafarn yr Heliwr**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £8,610 (70%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £12,334

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £2,494 – 20% (Oriau Gwirfoddol)

£1,230 – 10% (Codi Arian)

Ar Stryd Fawr tref Nefyn, yng nghanol Ardal Cadwraeth ddynodedig – mae Tafarn yr Heliwr, sydd wedi bod ar gau ers peth amser a'i gyflwr yn dirywio. Yn dilyn cyfarfod



cyhoeddus – daeth Pwyllgor at ei gilydd ac yn dilyn cyfnod o godi arian – mae'r adeilad bellach wedi ei brynu ac mae gwaith yn mynd ymlaen i'w ddatblygu yn dafarn gymunedol, llety a hwb i bob math o weithgareddau cymdeithasol. Mae'n brosiect hirdymor gyda nifer fawr o bobl yn gwirfoddoli ac wedi prynu cyfranddaliadau. Mae'n brosiect cyffrous

hefyd gyda'r potensial enfawr o gyfrannu yn bositif at yr economi a'r gymuned leol. Mae nawdd o'r Gronfa yn y flwyddyn hon wedi ei cyfrannu at ffenestri newydd gan saer lleol.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP11)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2, CP3, CP4, CP5, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP6)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP4, MP7, MP8, MP9)

- **CDC 19.14 Arwyddion Newydd Eglwysi Bro Madryn**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £750 (79%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £950

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £250– 21%(Oriau Gwirfoddol)

Dyma brosiect i wella'r arwyddion i Eglwys Pistyll. Mae hon yn Eglwys hynafol, wedi ei lleoli ar Lwybr Arfordir Cymru ac ar lwybr traddodiadol y pererinion i Enlli. Mae wedi ei rhestru gan Cadw (Gradd I) ac felly yn cyfrannu yn fawr i amgylchedd hanesyddol yr AHNE. Roedd yr arwyddion yn y lôn wedi dirywio gyda'r wybodaeth arnynt wedi dyddio felly cefnogwyd y cais am arwydd newydd.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol – HP2, HP6)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

- **CDC 19.16 Parêd Dewi Sant Pwllheli**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £2080.70 (50%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £4,161.40

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £500– 12% - (Cyngor Tref Pwllheli)

£500 – 12% (ASDA Pwllheli)

£1,080.70 – 26% (Ysgolion)



Fel rhan o ddathliadau Cymreictod yr ardal, mae Pwyllgor Parêd Dewi Sant yn cynnal pob math o weithgareddau bob blwyddyn yn amrywio o'r Parêd, sesiynau celf a chreffft i blant, gwersi Cymraeg ac wythnos Tapas Llŷn. Mae'r Parêd yn ddigwyddiad cymunedol a phwysig yng nghalendr digwyddiadau'r ardal. Mae cyfle i ddathlu diwylliant a threftadaeth unigryw yr ardal a gwneir llawer

o waith gyda'r ysgolion lleol a busnesau'r dref gyda bwrlwm gwahanol gystadlaethau. Mae cystadleuaeth ffenestr siop ymysg busnesau tref Pwllheli wedi mynd o nerth i nerth! Mae'r wythnos Tapas hefyd yn hyrwyddo a chefnogi cynnyrch lleol drwy gynnig bwydlen arbennig yn ystod cyfnod y Parêd.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP4)

- **CDC 19.17 Be Nawn Ni Heddiw**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £1,000 (74%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £1,350

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £350 - 26% - (Be Nawn Ni Heddiw)

Mae Be Nawn Ni Heddiw yn brosiect sy'n cynnig rhaglen o weithgareddau cymunedol. Maent yn amrywio o sesiynau celf a chrefft, prynhawn yng nghwmni cerddorion poblogaidd i sgysiau am hanes lleol - ac mae pobl o bob oed yn gallu cymryd rhan gyda chefnogaeth cludiant cymunedol O Ddrws i Ddrws. Cefnogwyd y prosiect hwn yn 2019/20 oherwydd y modd mae'n cynnig cyfle i bobl gymdeithasu a chyfarfod pobl newydd a chodi ymwybyddiaeth am hanes lleol a hyrwyddo busnesau lleol. Mae'r nawdd yn galluogi'r prosiect i dalu am siaradwyr gwadd, llogi lleoliad a chostau paned a lluniaeth.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP11)

(Tawelwch a Llygredd Isel – PP1)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP5)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

5.0 CYMORTH YN 2020/21 A THU HWNT

5.1 Mae £100,000 wedi ei gynnig i Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn ym mlwyddyn ariannol 2020/21 ac rydym yn dra diolchgar am hynny. Hyd yma (Awst 6ed 2020) – mae 8 prosiect wedi eu cefnogi. Daw eu cyfanswm, yn ogystal â'r costau gweinyddol (10%) i **£58,627,12**. Dyma grynodedb ohonynt:-

- CDC 20.1 Amgueddfa Forwrol Llŷn
- CDC 20.4 Arddangosfa Ysgol Llanaelhaearn
- CDC 20.5 Cofeb Aberdaron
- CDC 20.6 Cae Chwarae Aberdaron
- CDC 20.7 Tafarn yr Heliwr
- CDC 20.8 Melin Daron
- CDC 20.9 Storws Enlli
- CDC 20.11 Iard Porth Ysgaden

5.2 Mae llawer o ymholiadau wedi dod i law ar gyfer gweddill yr arian – ac mae bwriad cynnal cyfarfod Panel Grantiau ddiwedd mis Medi.

5.3 Rydym eisoes hefyd wedi dechrau derbyn ymholiadau ar gyfer ceisiadau posibl ar gyfer 2021/22. Mae rhai yn brosiectau newydd, ac eraill yn rhai o'r brosiectau uchod sy'n sylweddol ac yn hir-dymor (e.e. Melin Daron a Storws Enlli).

6.0 CRYNHOI

6.1 Cefnogwyd yn mlwyddyn ariannol 2019-2020, 14 o brosiectau i gyd ac rydym yn ddiolchgar iawn o'r cyllid - sydd wedi cefnogi mentrau a sicrhau newidiadau positif yn yr ardal. Rydym yn hyderus fod yr holl brosiectau wedi cyrraedd amcanion y Gronfa. Mae adborth yr ymgeiswyr yn ategu hefyd fod cyfraniad y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi bod yn allweddol i'w llwyddiannau. Os oes unrhyw gwestiynau pellach neu wybodaeth sydd ei angen – mae croeso i chi gysylltu gyda ni ar ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru / 01758 704 176.